


Ymchwilio i Anfantais Ddigidol

Ymateb Ofcom i Ganfyddiadau Ymchwil

Adroddiad

Cyhoeddwyd 2 Ebrill 2025



Ein hymateb

Cyflwyniad

Yn Ofcom, ein cenhadaeth yw sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Fel rheoleiddiwr y gwasanaethau cyfathrebu mae pobl yn y Deyrnas Unedig yn eu defnyddio ac yn dibynnu arnynt bob dydd, ein nod yw sicrhau bod pobl yn cael y gorau o'u band eang, eu ffonau cartref, eu gwasanaethau symudol, eu teledu a'u radio, yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau ar-lein yn cyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu eu defnyddwyr. Wrth wneud hyn, mae gennym ddyletswydd i ystyried anghenion, barn a buddiannau defnyddwyr a dinasyddion, gan gynnwys pobl a allai fod mewn amgylchiadau bregus.

Mae'r rhyngwrwyd yn sail i gyfathrebu mewn cymdeithas fodern, ac mae'r gwasanaethau mae pobl yn eu defnyddio ac yn dibynnu arnynt bob dydd yn symud fwyfwy ar-lein, gyda'r pandemig COVID-19 wedi cyflymu'r newid hwnnw. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld newidiadau sylweddol sy'n debygol o barhau. Un enghraifft nodedig yw datblygiad cyflym deallusrwydd artifisial cynhyrchiol, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd diweddarau ein dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau newidiol y rhai a allai wynebu anfanteision wrth ddefnyddio'r rhyngwrwyd a llywio drwy'r byd digidol.

Rydym yn gweld newid sylweddol tuag at ddarparu gwasanaethau ar-lein yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio, gan adlewyrchu cymdeithas yn ei chyfanrwydd. Enghraifft wych yw dyfodol dosbarthu teledu, lle mae cynulleidfaoedd yn treulio mwy o'u hamser yn gwyllo cynnwys ar-lein. Mae'n bosibl y bydd y shifft hon yn gadael rhai cynulleidfaoedd, sy'n dibynnu ar Deledu Daearol Digidol i gael gafael ar wasanaethau, heb ddigon o gefnogaeth – yn enwedig os yw newid arferion cynulleidfaoedd a chostau cynyddol yn golygu bod 'trobwyt' pan fydd mwy o wasanaethau'n dod ar-lein yn unig. Yn ein [hadroddiad i'r Llywodraeth](#)¹ y llynedd, fe wnaethom ymrwymo i ymchwilio ymhellach i'r rhwystrau mae dinasyddion yn eu hwynebu o ran mynd ar-lein a defnyddio gwasanaethau digidol yn llawn.

Rydym yn cyhoeddi ymchwil newydd sy'n cyfrannu at well dealltwriaeth o'r rhwystrau rhag ymgysylltu ar-lein ac yn ddigidol. Yn gyntaf mae [dadansoddiad meintiol](#) o broffil demograffig y rhai heb fynediad at fand eang gartref, sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae'r ail yn [astudiaeth ymchwil ansoddol fanwl](#) i anfantais ddigidol, ac mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar hynny.

Wrth siarad â 70 o bobl o bob cwr o'r Deyrnas Unedig, buom yn archwilio pa heriau roedd pobl yn eu hwynebu wrth fynd ar-lein, yn ogystal â rhesymau pobl dros fod all-lein. Fel sy'n cael ei drafod isod, mae'r ymchwil yn dangos bod y rhwystrau a'r profiadau negyddol hyn yn effeithio ar eu gallu i ddefnyddio'r rhyngwrwyd, ansawdd eu hymgysylltiad digidol, neu eu gallu i elwa'n llawn ar y cyfleoedd sy'n cael eu darparu gan y rhyngwrwyd cyflym iawn.

Rydym yn mabwysiadu'r term 'Anfantais ddigidol' yn y gwaith ymchwil hwn ac yn ei ddefnyddio fel term eang i ddisgrifio profiadau pobl sy'n wynebu rhwystrau neu brofiadau negyddol wrth ddefnyddio gwasanaethau a chyfathrebiadau digidol. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi cefndir a chanlyniadau ein hymchwil ansoddol ac yn amlinellu pa gamau mae Ofcom yn eu cymryd mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwil.

¹ Adroddiad OFCOM: Dyfodol dosbarthu teledu

Pwy allai wynebu anfantais ddigidol?

Mae ymchwil flaenorol yn awgrymu bod grwpiau poblogaeth amrywiol a allai wynebu anfantais ddigidol ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol:

- Mae nifer y bobl heb fynediad i'r rhyngwrwyd wedi gostwng o 13% i 5% yn ystod y pum mlynedd diwethaf.² Er mai cyfran fach o boblogaeth y Deyrnas Unedig yw hyn, mae'r 5% hwn, serch hynny, yn cynrychioli dros ddwy filiwn a hanner o bobl a allai wynebu mwy o effeithiau negyddol dros amser o fod all-lein mewn cymdeithas sy'n dod yn fwyfwy digidol.
- Mae nifer sylweddol o bobl yn y Deyrnas Unedig ar-lein ond yn defnyddio technolegau etifeddol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Er enghraifft, mae tua 2.1 miliwn o bobl yn dal i ddefnyddio dyfeisiau sy'n dibynnu ar gysylltedd 2G neu 3G,³ gan arwain at gyflymderau data arafach a darpariaeth is wrth i ddarparwyr symudol roi'r gorau i'w rhwydweithiau 2G a 3G yn raddol.
- Mae tua 27% o bobl yn y Deyrnas Unedig yn cael eu hystyried yn ddefnyddwyr cul o'r rhyngwrwyd, sy'n gwneud dim ond nifer fach o dasgau ar-lein er bod ganddynt gysylltiad.⁴ Mae ein hymchwil yn awgrymu bod y defnyddwyr hyn, o ran agwedd, yn gallu bod yn gyndyn neu'n wrthwynebus i ddefnyddio ystod ehangach o wasanaethau a swyddogaethau ar-lein.
- Mae 18% o ddefnyddwyr y rhyngwrwyd yn mynd ar-lein drwy ffôn clyfar yn unig, ac mae 27% o'r defnyddwyr hyn yn dweud eu bod yn teimlo dan anfantais o ganlyniad. Mae defnyddwyr ffonau clyfar yn unig yn fwy tebygol o fod yn fenywod, ynghyd ag unigolion mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol DE, sy'n awgrymu y gall fforddiadwyedd gyfrannu at resymau dros fynd ar-lein drwy ffôn clyfar yn unig.⁵
- Nid yw 8% o ddefnyddwyr y rhyngwrwyd yn ystyried eu hunain yn hyderus ar-lein. Mae'r rhai sydd yn y categori hwn yn fwy tebygol o fod yn 55 oed a hŷn, gyda chyflyrau sy'n effeithio arnynt neu'n cyfyngu arnynt, ac yn defnyddio ffonau clyfar yn unig.⁶ Gall y diffyg hyder hwn arwain at bobl yn teimlo'n ansicr/anniogel ar-lein, yn ogystal â cholli cyfleoedd o bosibl o ran cynhyrchu, cysylltu ac adloniant.
- Mae tua 24% (16 miliwn) o bobl yn y Deyrnas Unedig yn bobl ag anableddau.⁷ Mae ymchwil yn dangos bod unigolion ag anableddau yn parhau i wynebu mwy o heriau nag eraill ar-lein a bod y rhai sydd ag anabledd corfforol yn lleiaf tebygol o allu cwblhau'r tasgau sylfaenol i ymgysylltu â byd digidol.⁸
- Gall rhai grwpiau ddioddef niwed ar-lein anghymesur. Mae ymchwil o 2024 yn dangos bod pobl anabl (76%) yn fwy tebygol na defnyddwyr rhyngwrwyd nad ydynt yn anabl (64%) o ddioddef niwed ar-lein. Mae pobl mewn amrywiaeth o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddod ar draws cynnwys cas neu gamdriniol ar-lein na gweddill y boblogaeth; dywedodd 48% o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eu bod wedi dod ar draws cynnwys o'r

² Ofcom, Traciwr Technoleg 2024.

³ [Ofcom, Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2024](#)

⁴ [Ofcom, Adroddiad Defnydd Oedolion o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt 2024](#)

⁵ [Ofcom, Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2024](#)

⁶ [Ofcom, Adroddiad Rhyngweithiol Defnydd Oedolion o'r Cyfryngau a'u Hagweddau Atynt 2024](#)

⁷ Papur Briffio Ymchwil Tŷ'r Cyffredin (Hydref 2024): [UK Disability Statistics: Prevalence and Life Experience](#)

⁸ Lloyds Bank, [2024 Consumer Digital Index](#)

fath sy'n targedu ethnigrwydd yn y 4 wythnos cyn yr ymchwil. Mae menywod bum gwaith yn fwy tebygol o ddiodef cam-drin delweddau personol.⁹

⁹ Ofcom, [Traciwr Profiadau Ar-lein 2024](#).

Ar ba grwpiau y gwnaethom ganolbwytio?

Wrth wneud y gwaith hwn, roeddem yn cydnabod:

1. Gall rhai grwpiau gael eu tangynrychioli mewn ymchwil ar brofiadau digidol, fel y rhai mewn tai ansicr, y rhai sydd â gallu cyfyngedig yn y Saesneg, a defnyddwyr anfynych y rhynggrwyd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr o gwbl. Mae'r grwpiau hyn mewn perygl o gael profiadau gwael gyda gwasanaethau hanfodol os nad oes opsiynau all-lein ar gael neu os nad ydynt yn hygyrch.
2. Mae grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn wynebu heriau ehangach mewn cymdeithas, gan amrywio o anghydraddoldeb economaidd i heriau o ran cael gafael ar ofal iechyd, sy'n golygu os nad yw pobl yn y grwpiau hyn yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar-lein, gall gymhlethu'r problemau maent yn dod ar eu traws mewn bywyd bob dydd.¹⁰
3. Er ei bod yn hanfodol monitro'r defnydd o'r rhynggrwyd a chyfathrebu digidol drwy fetrigau meintiol cadarn, mae hefyd yn bwysig defnyddio dulliau ymchwil ansoddol i barhau i archwilio naws ac amrywiaeth ymddygiad sy'n ymwneud â bywyd digidol. Mae hyn yn helpu i herio a llywio ein dull o ymdrin ag ymchwil feintiol, sy'n arbennig o bwysig ar adeg pan fo'r ffordd mae pobl yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu wedi mynd yn fwy tameidiog.

Gyda'r ystyriaethau hyn mewn golwg, fe wnaethom gomisiynu Blue Marble i gynnal astudiaeth ansoddol o anfantais ddigidol, er mwyn dyfnhau ein dealltwriaeth o'r profiadau a'r heriau mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio cyfathrebiadau a gwasanaethau digidol. Roedd yr ymchwil yn canolbwytio ar rai o'r grwpiau o bobl a allai wynebu mathau unigryw o anfantais ddigidol sy'n gysylltiedig â'u hunaniaeth neu eu hamgylchiadau. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys pobl anabl, pobl mewn tai anniogel, pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl â lefel isel o hyfedredd yn y Saesneg, a phobl sy'n defnyddio'r rhynggrwyd yn anfynych (ond heb fod yn gyfyngedig i'r grwpiau hyn).

Mae'r adroddiad a ddeilliodd o hyn yn rhoi tystiolaeth ansoddol am anfantais ddigidol, gan dynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu'r unigolion sy'n cael eu cyfweld, eu hagweddau at y rhynggrwyd, a'i effaith ar eu bywydau. Mae'n edrych ar brofiadau gwahanol grwpiau ar yr un pryd â chydabod cymhlethdod ychwanegol rhyngblethedd yn hunaniaeth pobl, yn ogystal â materion trawsbynciol sy'n rhan o brofiadau digidol, gan gynnwys cysylltedd gwan, sgiliau neu hyder digidol cyfyngedig, a phrofiad o niwed ar-lein.

¹⁰ Ceir enghreifftiau o'r heriau hyn yn yr adroddiad [Archwilio Anfantais Ddigidol](#).

Beth yw prif ganfyddiadau'r Ymchwil?

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu bod wedi profi rhywfaint o her wrth gymryd rhan mewn bywyd ar-lein. Clywsom am faterion yn ymwneud â:

- **Cysylltedd gwan.** Roedd hyn yn cynnwys pobl a oedd o'r farn bod ganddynt opsiynau band eang cyfyngedig yn eu cartref neu ardal, yn ogystal â'r rhai a oedd â 'mannau di-gyswllt' yn eu cartrefi, cyflymder band eang isel, neu a oedd yn defnyddio data symudol yn unig.
- **Cost mynd ar-lein.** Er enghraifft, pobl a oedd â data symudol yn unig i fynd ar-lein, ond a oedd yn teimlo nad oedd hyn yn diwallu eu hanghenion, yn ogystal â phobl a oedd yn meddwl y byddai cael band eang neu ddyfeisiau cyflymach a fuasai'n diwallu eu hanghenion yn well yn rhy ddrud iddynt.
- **Niwed ar-lein.** Er enghraifft, cyfranogwyr a oedd wedi dioddef twyll ariannol, 'swyno trwy dwyll' ac yr oedd eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu hacio. Roedd llawer hefyd wedi sôn am brofiadau o negeseuon cas ar-lein ar gyfryngau cymdeithasol.
- **Dyfeisiau, meddalwedd, apiau a gwefannau nad oeddent yn diwallu anghenion mynediad pobl.** Ar gyfer dyfeisiau a meddalwedd personol, roedd pryderon ynghylch cost a gwybodaeth isel am ddewisiadau amgen yn cyfyngu ar allu pobl i wella eu profiadau.
- **Pobl a oedd yn teimlo'n ddihyder ar-lein a/neu nad oeddent yn meddu ar sgiliau digidol.** Siaradodd pobl am anawsterau wrth geisio cwblhau tasgau neu osgoi gwneud tasgau ar-lein oherwydd pryderon na fyddent yn gallu eu cwblhau. Roedd pobl hefyd nad oeddent yn ddigon hyderus i fynd ar-lein oherwydd eu hymddiriedaeth neu eu hagwedd at y rhyngwyd a/neu dechnoleg.

Disgrifiwyd yr heriau hyn fel rhai sy'n arwain at amrywiaeth eang o effeithiau seicolegol, logistaidd a chymdeithasol. O ganlyniad i'r anawsterau a wynebir wrth fynd ar-lein, gallai pobl brofi problemau iechyd meddwl fel straen a gorbryder, colli cyfleoedd gwaith, neu dynnu'n ôl o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae ein hymchwil hefyd wedi atgyfnerthu ymchwil flaenorol sy'n awgrymu bod modd cysylltu'r heriau mae pobl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio gwasanaethau digidol â'u hunaniaeth neu eu hamgylchiadau. Er enghraifft:

- Disgrifiodd rhai pobl anabl sut gall mynd ar-lein gael effaith negyddol ar eu hiechyd.
- Disgrifiodd pobl mewn tai anniogel sut gall eu sefyllfaoedd tai ei gwneud yn fwy anodd iddynt gael mynediad at y rhyngwyd.
- Disgrifiodd rhai pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol brofiadau o hiliaeth ar-lein.
- Roedd pobl â hyfedredd cyfyngedig yn y Saesneg yn disgrifio eu dibyniaeth ar eraill i gymryd rhan mewn agweddau ar fywyd ar-lein neu ddefnyddio gwasanaethau digidol allweddol.
- Roedd defnyddwyr rhyngwyd anfyfych – sy'n golygu'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngwyd yn lleiaf aml yn yr ymchwil – yn cynnwys pobl a oedd yn disgrifio diffyg arian neu gymorth i'w helpu i wneud mwy ar-lein.

Mae ein hymchwil hefyd wedi nodi nifer o heriau sy'n berthnasol i ymgysylltiad pobl â gwasanaethau digidol yn y dyfodol. Er enghraifft:

- I rai pobl, mae'r syniad o gymdeithas sy'n fwyfwy digidol yn gallu achosi ofn a phryder. Mae profiadau negyddol, fel darpariaeth gwasanaeth gwael, sgamiau a chasineb ar-lein, yn gwaethygu'r teimladau hyn ac yn erydu hyder ar-lein. O ganlyniad, mae rhai unigolion yn dewis

peidio â defnyddio gwasanaethau digidol fel cyfryngau cymdeithasol neu leihau eu defnydd o'r rhyngwrwyd mewn ffyrdd eraill, er gwaethaf effeithiau negyddol posibl penderfyniadau o'r fath.

- I gymryd rhan ar-lein, roedd llawer o bobl yn dibynnu ar wahanol ffyrdd o weithio a defnyddio dirprwy. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio technoleg pobl eraill neu ofyn i eraill gyflawni tasgau ar-lein ar eu cyfer pan nad oeddent yn ddigon hyderus. Roedd rhai pobl yn nodi nad oeddent yn defnyddio'r rhyngwrwyd, ond daeth yn amlwg nad oeddent yn gwbl all-lein, gan eu bod yn cael help gan aelodau o'r teulu a oedd yn helpu gyda thasgau ar-lein ac, mewn rhai achosion, roeddent wedi sefydlu cysylltedd yn y cartref ar eu cyfer.
- Nid yw pobl sy'n wynebu heriau unigryw ar-lein bob amser yn ystyried eu bod dan anfantais ddigidol ac maent yn o'r farn bod pobl eraill mewn mwy o berygl o gael eu 'gadael ar ôl.' Er bod anfanteision allgáu digidol absoliwt yn glir i gyfranogwyr, yn aml nid oeddent yn ymwybodol iawn o fanteision llawn y rhyngwrwyd, gan arwain at ddiffyg awydd am fwy o ddefnydd o'r rhyngwrwyd, a oedd yn ei dro yn lleihau'r posibilrwydd o ddod yn ymwybodol o'r manteision hynny.

Mae'r ymchwil yn dangos bod llawer iawn o amrywiaeth yn y berthynas rhwng pobl â'r rhyngwrwyd a'u hagweddau at y rhyngwrwyd, sy'n effeithio ar p'un a oeddent o'r farn bod yr heriau roeddent yn eu hwynebu yn sylweddol. Roedd amrywiaeth o ffactorau wedi chwarae rhan wrth benderfynu a oedd cyfranogwyr yn teimlo dan anfantais ar-lein, gan gynnwys: difrifoldeb ymddangosiadol y materion a brofir, argaeledd datrysiadau, p'un a oedd gan bobl rwydwaith cymorth o ffrindiau neu berthnasau ai peidio, a'r gwerth roedd cyfranogwyr yn bersonol gysylltiedig â bod ar-lein. Er bod rhai'n teimlo'n rhwystredig am nad oeddent yn gallu gwneud mwy ar-lein, roedd eraill yn gymharol gyfforddus gyda'u perthynas bresennol â'r rhyngwrwyd.

Y Camau Nesaf

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhoi cipolwg ansoddol amhrisiadwy ar brofiadau pobl sy'n wynebu anfantais ddigidol. Mae'n dangos bod heriau'n wynebu pobl mewn rhai grwpiau demograffig sy'n effeithio ar eu gallu a'u parodrwydd i elwa'n llawn ar wasanaethau a chyfathrebiadau digidol, hyd yn oed ar ôl iddynt groesi'r trothwy i fynd ar-lein.

Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn yn bwysig ar gyfer llywio:

- ein dealltwriaeth o'r bwlch digidol a allai barhau yn y blynyddoedd i ddod, er gwaethaf lefelau uwch yn gyffredinol o fabwysiadu band eang,
- ein gwaith ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ac ar rymuso defnyddwyr,
- ein gwaith i gefnogi pontio digidol o hen dechnolegau,
- ein gwaith ar ddyfodol dosbarthu teledu, ac
- ein rhaglen ymchwil gynhwysol.

Y Bwlch Digidol sy'n Datblygu

Rydym wedi cynnal dadansoddiad ystadegol o'r data meintiol o'n harolwg Traciwr Technoleg i gael cipolwg newydd ar nodweddion oedolion yn y Deyrnas Unedig nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref (pobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd), a'r rhai sydd â chysylltedd rhyngrwyd cyfyngedig iawn. Mae canfyddiadau'r gwaith hwn wedi eu nodi yn ein [cyhoeddiad](#) ac maent yn rhoi rhagor o wybodaeth am rai grwpiau demograffig a allai fod dan anfantais yn ddigidol, yn benodol oherwydd rhwystrau rhag cael cysylltiad addas â'r rhyngrwyd neu allu cynnal cysylltiad o'r fath.

Mae'r gwaith hwn yn dangos bod angen ehangu a herio ymhellach ein dealltwriaeth o bobl sy'n profi gwahanol fathau o allgáu digidol. Rydym hefyd yn ailwampio ein gwiriwr rhyngrwyd darpariaeth symudol sy'n helpu defnyddwyr i ddeall sut beth yw darpariaeth symudol yn eu hardal. Bydd hyn yn gwella cywirdeb a thryloywder, a dylai ysgogi cymhellion cryfach ymysg darparwyr symudol i ddarparu cysylltedd gwell, a fyddai yn ei dro yn gwella canlyniadau i unigolion a chartrefi sy'n dibynnu ar ddata ar gyfer cysylltedd a/neu sy'n defnyddio ffonau clyfar yn unig. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro a yw cwsmeriaid sydd mewn amgylchiadau bregus yn cael eu trin yn deg gan ddarparwyr, gan gynnwys monitro dangosyddion fforddiadwyedd ar gyfer gwasanaethau cyfathrebiadau.

Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau a Grymuso Defnyddwyr

Mae ein rhaglen ymwybyddiaeth o'r cyfryngau wedi treialu nifer o [fentrau i wella sgiliau digidol ymysg cymunedau](#) i sefydlu ac ehangu 'beth sy'n gweithio', ochr yn ochr â [chasglu data](#) am amrywiaeth o brofiadau digidol. Mae'r rhaglen yn ymrwmo i wreiddio'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer bywyd ar-lein mewn gwaith cynhwysiad digidol presennol ledled y Deyrnas Unedig - er enghraifft, drwy weithio gydag awdurdodau lleol. Yn Birmingham, Glasgow, Rhondda Cynon Taf ac ar draws Gogledd Iwerddon, rydym yn mabwysiadu dull seiliedig ar leoedd o wreiddio ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn y cynnig cynhwysiad digidol presennol. Mae grwpiau llywio arbenigol lleol yn llunio'r gwaith i sicrhau ei fod yn berthnasol i'r cyd-destun lleol ac yn diwallu anghenion y cymunedau. Byddwn yn rhannu gwybodaeth a gwerthusiad o'r gwaith hwn i helpu i lywio ymarfer ar gyfer cymunedau lleol ledled y Deyrnas Unedig.

Byddwn yn gwneud mwy yn y maes hwn dros y tair blynedd nesaf, fel y nodir yn ein [strategaeth tair blynedd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau](#). Byddwn hefyd yn cyhoeddi Datganiad o Argymhellion yn nes ymlaen yn y flwyddyn, a fydd yn gwneud argymhellion sy'n berthnasol i greu gwasanaethau digidol grymusol ar gyfer defnyddwyr, a byddwn yn ystyried canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn wrth iddo wneud hynny.

Byddwn hefyd yn gwneud mwy wrth i ni weithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ac yn asesu cydymffuriad llwyfannau â'u rhwymedigaethau o dan y Ddeddf. Yn ogystal â'n gwaith sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a gweithredu yn erbyn niwed anghyfreithlon, yn 2026, byddwn yn cyhoeddi codau ymarfer arfaethedig sy'n rhoi sylw i adnoddau i ddefnyddwyr gael mwy o reolaeth dros ba gynnwys maent yn ei weld ar-lein.

Cynorthwyo Pontio Digidol

Yn y dirwedd ddigidol hon sy'n esblygu'n gyflym, rydym yn cydnabod y rhyngddibyniaeth gymhleth rhwng pontio o raglenni, technolegau a seilwaith hŷn i rai digidol modern ac effeithlon, a sicrhau nad oes unrhyw ran o'r boblogaeth yn cael ei gadael ar ôl nac yn cael ei heithrio'n ddigidol.

Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi tynnu sylw at y potensial i bobl gael eu gadael ar ôl a'r ffyrdd amrywiol y gall anfantais ddigidol ddod i'r amlwg, gan gynnwys:

- Hunan-eithrio o gysylltedd ar-lein: Mae rhai pobl yn dewis peidio â chael cysylltedd o gwbl.
- Hunan-eithrio o wasanaethau: Mae rhai unigolion yn dewis peidio ag ymgysylltu â rhai gwasanaethau digidol oherwydd diffyg hyder neu sgiliau digidol tybiedig.
- Bodloni ar wasanaethau ar-lein israddol: Mae'n bosibl y bydd pobl yn derbyn gwasanaethau nad ydynt yn diwallu eu hanghenion yn llawn oherwydd cost, dyluniad dyfeisiau, argaeledd gwasanaeth, lleoliad neu sefyllfa byw.
- Derbyn profiadau gwael: Mae'n bosibl y bydd rhai unigolion yn parhau i ddefnyddio gwasanaethau digidol er eu bod yn dioddef o niwed ar-lein, sy'n gallu effeithio ar eu hiechyd corfforol neu feddyliol.

Mae pontio digidol yn cynnig cyfleoedd i wella cynhwysiad digidol, sbarduno arloesi, meithrin twf, a gwella seiberddiogelwch. Fodd bynnag, pan gânt eu gwneud yn wael, gallant hefyd wneud gwasanaethau hanfodol yn anhygyrch, yn enwedig ar gyfer y grwpiau poblogaeth y tynnwyd sylw atynt yn y gwaith ymchwil hwn. Mae'r mewnwelediadau a geir o'r gwaith ymchwil hwn yn darparu llwyfan ar gyfer gwell dealltwriaeth a mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan bontio etifeddol i ddigidol, a sut gallwn gefnogi'r diwydiant i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i holl ddinasyddion y Deyrnas Unedig.

Yn ein cynllun gwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rydym wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar y maes hwn dros y flwyddyn nesaf. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r diwydiant a'r llywodraeth i sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, yn cael eu cynorthwyo a'u diogelu drwy'r newidiadau hyn, a byddwn yn ystyried sut gall newidiadau digidol ar draws y sectorau mae Ofcom yn eu rheoleiddio gyfrannu at y canlyniadau gorau i ddinasyddion, y diwydiant a thwf economaidd.

Dyfodol dosbarthu teledu

Rydym yn rhagweld newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau cyfathrebu sy'n cael eu rheoleiddio dros y blynyddoedd nesaf, sy'n golygu bod angen cymorth ar gyfer y diwydiant ac ar gyfer dinasyddion yn ystod y cyfnodau pontio hyn. Un maes ffocws penodol o ran cynorthwyo pontio digidol yw dyfodol dosbarthu teledu. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad [Dyfodol Dosbarthu Teledu](#) i'r llywodraeth: Mae dosbarthu teledu yn newid yn sylweddol eto, gan fod y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd bellach yn mwynhau rhyw fath o deledu protocol rhyngryd. Mae diwydiant a chynulleidfaoedd yn disgwyl i'r newid hwn i deledu ar-lein barhau, gan greu amrywiaeth o heriau a chyfleoedd i wylwyr a'r diwydiant teledu." Gallai'r newid hwn gael goblygiadau sylweddol i'r rhai sy'n gwbl all-lein a'r rhai a allai fod dan anfantais yn ddigidol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd monitro'r effeithiau hyn yn ofalus a byddwn yn gwneud hynny yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i gefnogi'r llywodraeth gyda'i gwaith parhaus ar Ddyfodol Dosbarthu Teledu, gan ddarparu cyngor technegol ar faterion amrywiol.

Yn ddiweddar, rydym wedi diweddarau [ein canllawiau arferion gorau ar gyfer hygyrchedd](#) sy'n rhoi cyngor i ddarlledwyr a darparwyr fideo ar-alw ar wneud nodweddion hygyrchedd o ansawdd uchel sy'n hawdd eu defnyddio. Wrth roi Deddf y Cyfryngau 2024 ar waith, byddwn yn cyflwyno gofynion hygyrchedd ar gyfer rhai gwasanaethau fideo ar-alw ar-lein, a llwyfannau teledu cysylltiedig sy'n cael eu rheoleiddio, er mwyn lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag eu defnyddio. Nod ein rhaglen waith sy'n ymwneud ag amrywiaeth ym maes darlledu (gan gynnwys monitro ac adrodd yn flynyddol) yw hyrwyddo gweithlu'r cyfryngau sy'n cynrychioli ac yn gwasanaethu'r Deyrnas Unedig i gyd.

Ein Rhaglen Ymchwil Gynhwysol

Yn unol â'n dyletswyddau, mae'n ofynnol i ni ddeall ymddygiad ac agweddau defnyddwyr ar draws sectorau sy'n cael eu rheoleiddio, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o fod dan anfantais, gwahaniaethu neu ymyleiddio. Mae'r ymchwil i anfantais ddigidol yn un o'r prosiectau a gynhaliwyd fel rhan o'n [rhaglen Ymchwil Gynhwysol](#). Mae'r gwaith hwn yn cwmpasu pob agwedd ar amrywiaeth a chynhwysiad mewn ymchwil i'r farchnad, o ddylunio a dadansoddi i adrodd a lledaenu, a bydd yn gwella ein dull ymchwil i'r farchnad ehangach.

Mae'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Blue Marble wedi gwella ein dealltwriaeth o anghenion y rhai sy'n gallu wynebu anfantais ddigidol, a bydd y canfyddiadau'n bwysig ar gyfer herio tybiaethau am bobl a chymdeithas yn barhaus. Rydym yn ymwybodol o'r ffaith bod miliynau o bobl, gan gynnwys y rhai mewn amgylchiadau mwy agored i niwed, wedi mynd ar-lein yn ddiweddar am y tro cyntaf yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Yng ngoleuni'r gwaith ymchwil hwn, rydym yn cydnabod pwysigrwydd parhau i fonitro a thracio profiadau'r garfan ar-lein newydd hon, i sicrhau eu bod yn teimlo bod cyfathrebiadau'n gweithio iddynt.